Apêl Undeb yr Annibynwyr
Cymraeg 2008/9

Apêl De Affrica

Tudalen Stori 1 – Angerdd

Mae **Wiseman Shabalala** (yr ail o'r dde) yn 30 ond wedi treulio deg mlynedd yn y carchar. Wedi iddo gael ei ryddhau, ymunodd â grŵp KCAP 'Acting against Crime' gan ddefnyddio drama i ddysgu pobl ifanc nad yw tor-cyfraith yn talu. Yn awr, yn un o'r hynaf yn y grŵp, mae'n perswadio mwy o fechgyn ifanc, fel **Thempinkosi** (y trydydd o'r dde), i ymuno â'r grŵp. 'Mae KwaMashu yn newid o gam i gam' meddai Wiseman; 'Ni yw'r rhai sy'n ei wella'

Gwaith KCAP a KwaMashu

Cymorth Cristnogol / Undeb yr Annibynwyr Cymraeg / TNB Pictures

Mae maestrefi De Affrica yn fyd hollol wahanol i'r dinasoedd modern gerllaw. Yma mae dinasyddion tlotaf y wlad wedi eu gwasgu i mewn i'r ghettoes erchyll, yn byw mewn cytiau, gyda phrinder gwaith a thor-cyfraith uchel.

Dim ond 20 cilomedr o ddinas fyrlymus Durban, mae KwaMashu yn gartref i hanner miliwn o Dde Affricanwyr duon, tlawd. Gyda diweithdra yn 80%, graddfa uchel o HIV a thrais, does dim rhyw lawer gan bobl ifanc yma i obeithio amdano.

Yn y cyd-destun creulon yma o dlodi a thrais, mae KCAP yn darparu dosbarthiadau dawns, drama, miwsig a chynllunio. Mae'r ganolfan yn dod ag ystyr a gobaith i fywydau cannoedd o bobl ifanc, a chyfle gwirioneddol i ddod o hyd i waith yn y celfyddydau. Mae eu perfformiadau yn drawiadol a pherthnasol, yn aml yn ymdrin â phynciau caled megis tor-cyfraith, HIV a bywyd yn y carchar.

Enw canolfan gelfyddydol KCAP yw Ekhaya, 'cartref' yn yr iaith Zulu. Mae'r ganolfan yn ganolbwynt i'r gymuned gyfan, yn ystod oriau'r dosbarthiadau – pan fydd pobl ifanc yn dewis dod yma yn lle sefyllian ar y strydoedd – ac yn ystod y perfformiadau, pan fydd y gynulleidfa leol yn gweiddi cymeradwyaeth wrth adnabod ffrindiau a chymdogion. Dywed yr heddlu bod nifer y troseddau wedi plymio ers i Ekhaya agor ei ddrysau.

Mae KCAP yn cynnig gweledigaeth ddeinamig a gobeithiol o'r dyfodol. Mae'n targedu pobl ifanc a fyddai, heblaw hyn, yn cael eu gadael ar gyrion cymdeithas, ac yn rhoi iddyn nhw'r cyfle i fod ar ganol y llwyfan. Mudiad seciwlar yw KCAP a ddechreuwyd yn 1993. Mae Cymorth Cristnogol wedi eu cefnogi ers 1999.

Meddai Wiseman, 'Os byddwch chi'n troseddu byddwch yn gorffen lan yn y carchar neu'n farw. Rym ni'n defnyddio ein profiadau ni ein hunain, rym ni'n gwybod beth sy'n mynd ymlaen yno. Pobl dlawd ŷm ni, ond dyw tlodi ddim yn esgus dros droseddu. Gallwch ddefnyddio talent a chreadigrwydd yn lle. Dwi'n credu bod Duw wedi creu pob person gyda phwrpas.'

Apêl De Affrica

Nodiadau pregeth

Mathew 5:1-12

(neu eich dewis chi – gweler isod)
Dewiswch ran o'r Beibl sydd wastad yn eich ysbrydoli chi, ac eglurwch pam eich bod mor frwd drosti. Neu, darllenwch ran o'r Bregeth ar y Mynydd o Mathew 5, sy'n herio ac yn ysbrydoli llawer o bobl.

Lle bynnag yr aeth Iesu, roedd yn adrodd storïau oedd yn denu'r torfeydd. Ni wyddom ddim am ei ddull, ei dechneg cyflwyno nac ansawdd ei lais, ond fe wyddom fod llawer o bobl yn dod i wrando arno. Roedd yn dweud pethau dadleuol wrthynt, weithiau pethau na fyddant am eu clywed. Dwedodd rhai pethau a'i gafodd i drafferth – gan y cyfoethog, y pwerus a'r awdurdodau goresgynnol. Fe soniodd am y pethau oedd yn bwysig i bobl o'i gwmpas.

Yn Ne Affrica, mae'r grwpiau drama'r KwaMashu Community Advancement Projects (KCAP) yn gwneud pethau tebyg, yn codi llais ynglŷn â'r materion pwysig yn eu cymunedau. Fel Iesu, defnyddiant storïau i gael y neges drosodd. Fel Iesu, maent yn herio'r ffyrdd traddodiadol o wneud pethau.

Beth mae eich eglwys chi'n teimlo'n angerddol amdano? Beth yw'r pethau y dylai eich eglwys fod yn codi llais amdanynt? Beth yw'r materion lleol pwysig o fewn eich cymuned? Pa faterion byd-eang y dylem ni fod yn sôn wrth bobl amdanynt – ein cyfrifoldeb tuag at bobl mewn llefydd fel De Affrica? Masnach Deg? Newid Hinsawdd? Beth allai eich eglwys ddefnyddio i gyrraedd y bobl o'ch cwmpas, er mwyn iddynt glywed yr hyn sydd gennych i'w ddweud?

Gweddïau

- Diolchwch am ddrama, dawns, cerddoriaeth a chân.
- Diolchwch am waith KCAP ac angerdd pobl fel Wiseman.
- Gofynnwch i Dduw i'n gwneud yn angerddol yn yr hyn yr ydym yn eu gwneud, yn union fel mai Wiseman a'r gweddill yn ei grŵp ef yn teimlo'n angerddol.

Arglwydd –
Pan fyddaf yn ofni siarad
oherwydd anwybodaeth,
Arglwydd, helpa fi i ddarganfod fy llais.
Pan fyddaf yn ofni ymddiried mewn eraill
oherwydd eu bod yn wahanol,
neu am nad oes ganddynt rym,
Arglwydd, rho ddewrder i mi.
Pan fyddaf yn teimlo bod eraill yn fy nefnyddio,
a finnau ddim yn gwybod sut i ddadlau fy achos,
Arglwydd helpa fi i wneud y dewis gorau.
Amen
(Janet Morley, Cymorth Cristnogol)

- Gweddïo gweithredol - gallech ysgrifennu eich gweddïau ar galonnau papur a'u gosod yn eich bowlen fel arwydd o roi eich calon a'ch angerdd i Dduw.

Syniadau codi arian

- Beth am drefnu sioe dalentau a chodi tâl mynediad? Fe allech ei droi'n gystadleuaeth, gan ofyn am bleidleisiau ar bob eitem. (e.e. dwedwch fod un bleidlais yn costio 10c a bod pobl yn gallu pleidleisio gymaint o weithiau ag y dymunent ac am gymaint o eitemau ag yr hoffent. Os ydynt yn hoffi eitem 1 gallent roi 10 pleidlais iddo, h.y. £1. Rhowch wobr ar y diwedd i'r eitem a gafodd fwyaf o bleidleisiau).

- Gallech drefnu noson Dechrau Canu gyda chasgliad ymadawol. Gofynnwch i bobl ddewis eu hoff emyn a chodi £5 am bob cais gaiff ei ganu yn ystod y noson.

Ysgol Sul

- Thema i'r haf: beth am ddathlu diwylliant Affrica yn ystod yr haf gyda sesiynau i'r Ysgol Sul ar ddrama, dawns, celf a.y.b.? Yna defnyddiwch yr hyn a grëwyd gennych mewn gwasanaeth dathlu ym Mis Medi.

- Mae'r bobl ifanc sy'n perthyn i KCAP yn newid y byd. Gofynnwch i'r plant orffen y gosodiad: 'Pe allwn newid y byd, byddwn yn newid...' a gofynnwch iddynt dynnu llun neu ysgrifennu eu hateb ar amlinelliad o'r byd. Gwnewch arddangosfa ohonynt yn eich eglwys (fe allai'r plant hyd yn oed herio'r gweddill o'r eglwys i ateb yr un cwestiwn!)

- Mae pobl ifanc KCAP yn perfformio dramâu am yr hyn sy'n bwysig yn eu cymuned. Gofynnwch i'r plant greu drama am broblem gymdeithasol yn eu hardal, e.e. yfed o dan oed, bwlio neu bobl ifanc heb ddim i'w wneud ac yn mynd i drafferth. Gwahoddwch hwy i berfformio'r ddrama yn y capel. Oes cyfle arall iddynt berfformio'r ddrama i fwy o bobl?

Gall **£55** dalu am wythnos o wersi dawns neu drama KCAP.

Gall **£70** dalu i berson ifanc ddysgu chwarae offeryn cerdd.

Rhifau elusennau cofrestredig y DG: Cymorth Cristnogol 1105851, Undeb yr Annibynwyr Cymraeg 248076.
Rhif cwmni Cymorth Cristnogol 5171525